Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Beth i'w wneud cyn, yn ystod ac ar ôl llifogydd

Cyngor ymarferol ynghylch beth i'w wneud er mwyn eich diogelu eich hun a'ch eiddo.



Noddir gan **Lywodraeth Cymru**
Sponsored by **Welsh Government**

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n Gorff Tan Nawdd Llywodraeth Cymru. Ei ddiben yw sicrhau cynnal, gwella a defnyddio adnoddau naturiol Cymru mewn modd cynaliadwy, yn awr ac yn y dyfodol.

Gweithiwn dros economi Cymru, a galluogwn y defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol er mwyn cefnogi swyddi a menter. Cynorthwywn fusnesau a datblygwyr i amgyffred ac ystyried effeithiau amgylcheddol pan wnânt benderfyniadau pwysig.

Gweithiwn dros gymunedau Cymru er mwyn diogelu pobl a'u cartrefi, cymaint ag y bo'n bosibl, rhag digwyddiadau amgylcheddol megis llifogydd a llygredd. Darparwn gyfleoedd iddynt ddysgu am adnoddau naturiol Cymru, eu defnyddio, a chael budd ohonynt.

Gweithiwn er mwyn cynnal a gwella ansawdd yr amgylchedd ar gyfer pawb. Gweithiwn tua chynyddu gallu'r amgylchedd ac adnoddau naturiol i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd a phwyseddau eraill.

Published by:
Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales
Ty Cambria House
29 Newport Road
Cardiff
CF24 0TP

Tel: 08708 506 506*

Email: enquiries@environment-agency.gov.uk

www.environment-agency.gov.uk

© Environment Agency

All rights reserved. This document may be reproduced with prior permission of the Environment Agency.

November 2010

* Weekday Daytime calls cost 8p plus up to 6p/min from BT Weekend Unlimited. Mobile and other providers' charges may vary.

Eich gwasanaeth rhybuddio am lifogydd

Derbyniwch y gwasanaeth cywir ar eich cyfer chi

Rydym yn darparu gwasanaeth rhybuddion llifogydd am ddim i lawer o ardaloedd mewn perygl o lifogydd o afonydd a'r môr.

Canfyddwch a allwch gofrestru ar gyfer ein gwasanaeth **Rhybuddion Floodline Uniongyrchol** trwy ymweld â'n gwefan neu trwy alw Floodline. Gallwch ddewis derbyn rhybuddion dros y ffôn, neges destun, e-bost, ffacs neu alwr.

Mewn rhai ardaloedd rydym yn rhybuddio pobl am lifogydd, yn ogystal, trwy ddefnyddio:

- Seirenau — sŵn oernadu, fel rheol, na weithredir ond pan fo llifogydd ar ddigwydd.
- Uchelseinyddion— bydd cerbyd yn gyrru o amgylch yn ailadrodd y rhybuddion llifogydd.

Mannau eraill i gael y newyddion diweddaraf am lifogydd

- www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
- Bwletinau lleol am y tywydd, y newyddion a theithio.

Galwch Floodline ar: 0345 988 1188

Ar agor 24 awr y dydd

- Canfyddwch pa wasanaeth rhybuddio am lifogydd sydd ar gael ble'r ydych chi'n byw.
- Derbyniwch gyngor ymarferol ar beth i'w wneud cyn, yn ystod ac ar ôl llifogydd.
- Derbyniwch rif Deialu Cyflym er mwyn cael gwybodaeth yn hawdd ynghylch llifogydd yn eich ardal chi.

Eich cynllun llifogydd personol

Dechreuwch baratoi heddiw cyn i lifogydd ddigwydd. Defnyddiwch y rhestr wirio hon fel eich cynllun llifogydd.

1. Dysgwch pwy i gysylltu â nhw a phryd

- Cytunwch ble fyddwch chi'n mynd a sut i gysylltu â'ch gilydd.
- Gofynnwch i'ch Cyngor a ganiateir anifeiliaid anwes mewn canolfannau ymgilio.
- Cadwch restr o'ch holl gysylltiadau pwysig wrth law.

2. Meddyliwch nawr am beth allwch chi ei symud

- Peidiwch ag aros am lifogydd. Symudwch eitemau o werth personol fel albymau ffotograffau, ffilmiau teuluol a chofroddion a drysorir i le diogel.

3. Meddyliwch am beth fyddech chi'n dymuno ei symud i le diogel yn ystod llifogydd

- Anifeiliaid anwes
- Ceir
- Dodrefn
- Offer trydanol
- Planhigion mewn potiau a dodrefn gardd
- Beth arall? .....
  .....
  .....

Meddyliwch am bwy fedrech chi ofyn am help oddi wrthynt/ pwy fedrech chi gynnig eu helpu, yn arbennig cymdogion neu berthnasau bregus, yn ystod llifogydd.

Dysgwch sit i gau eich prif gyflenwadau nwy, trydan a dŵr

4. Gwiriwch eich sicrwydd yswiriant

- Gwiriwch eich polisi yswiriant adeiladau a chynnwys.
- Cadarnhewch fod gennych sicrwydd rhag llifogydd.
- Canfyddwch a yw'r polisi'n talu am bethau newyddi adnewyddu hen rai, ac a oes ganddo gyfyngiad ar waith trwsio.
- Peidiwch â rhoi amcangyfrif rhy isel o werth eich cynnwys.

5. Dysgwch sut i gau eich prif gyfenwadau nwy, trydan a dŵr

- Gofynnwch i'ch cyflenwr sut i wneud hyn.
- Marciwch dapiau neu switshis â sticeri i'ch helpu i gofio.

6. Paratowch becyn llifogydd o eitemau hanfodol a'i gadw wrth law

- Copïau o'ch dogfennau yswiriant cartref.
- Tortsh gyda batris sbâr.
- Radio â batri neu un gallwch ei weindio.
- Dillad cynnes dwrglos a blancedi.
- Pecyn cymorth cyntaf a moddion ar bresgripsiwn.
- Dŵr potel a bwydydd diddarfod.
- Bwyd babanod ac eitemau gofal babanod.



Rhifau defnyddiol

Eich rhifau teleffon pwysig mewn llifogydd. Cwblhewch hwn a chadw'r daflen hon gyda'ch pecyn llifogydd.

Floodline	0345 988 1188
Rhif deialu cyflym	
Llinell gymorth argyfwng yr awdurdod lleol	
Rhif 24 awr y cwmni yswiriant a rhif y polisi	
Tonfedd gorsaf radio lleol am fwletinau newyddion a diweddaru tywydd	
Teulu a chymdogion	
Rhifau ffôn gwaith	
Meddygfa	
Gorsaf Heddlu leol	
Milfeddyg/llety cŵn a chathod	
Gwesty neu G a B lleol	
Cyflenwr nwy a rhif mesurydd	
Cyflenwr trydan a rhif mesurydd	
Cyflenwr dŵr a rhif mesurydd	
Trydanwr	
Plymwr	
Adeiladwr	

Offer dros dro ar gyfer gwarchod rhag llifogydd

Gall offer gwarchod rhag llifogydd helpu i atal llifddwr rhag dod i mewn i'ch eiddo. Dilynwch gyfarwyddiadau'r gwneuthurwr er mwyn rhoi'r rhain yn eu lle pan dderbyniwch rybudd llifogydd.

Byrddau llifogydd

Atodir y rhain i fframiau o amgylch ffenestri a drysau. Gellir eu golchi, eu storio a'u defnyddio eto.

Cofiwch dynnu offer gwarchod rhag llifogydd unwaith i'r llifddwr gilio. Bydd hyn yn helpu i'ch eiddo sychu.

Caeadau plastig er mwyn selio brics awyru

Gall y rhain atal dŵr rhag dod i mewn drwy eich brics awyru.

Bagiau tywod

Mae'n bosibl gall eich cyngor lleol ddarparu'r rhain yn ystod llifogydd ond gallant fod yn brin. Gallwch brynu eich tywod a'ch bagiau eich hun, neu lenwi casys gobennydd a bagiau plastig â phridd. Dylech sylweddoli, ar ôl i'r llifogydd gilio, y byddant wedi'u halogi â charthion yn y dŵr.

Gallwch gael mwy o wybodaeth ynghylch defnyddio bagiau tywod ar ein gwefan.

Camau pellach er mwyn gwarchod eich eiddo

Mae pethau y gallwch eu gwneud i'ch eiddo a fydd yn gwneud glanhau ar ôl llifogydd yn rhatach ac yn haws. Gweler y rhestr ar dudalen 20 y daflen hon.

Dysgwch eich codau rhybuddion llifogydd

Mae angen i chi fod yn ymwybodol o lifogydd a chadw llygad ar lefelau'r dŵr a'r tywydd bob amser. Gallwch wneud hyn drwy wirio'r rhagolygon am lifogydd a lefelau'r afonydd a'r môr ar ein gwefan neu drwy wrando ar newyddion lleol a rhagolygon tywydd

LLIFOGYDD – BYDDWCH YN BAROD

Beth yw ystyr hyn

Mae llifogydd yn bosibl.
Byddwch yn barod.

Beth i'w wneud

- Byddwch yn barod i weithredu eich cynllun llifogydd.
- Paratowch becyn llifogydd o eitemau hanfodol.

RHYBUDD LLIFOGYD

Beth yw ystyr hyn

Disgwylir llifogydd.
Gweithredwch ar unwaith.

Beth i'w wneud

- Diogelwch eich hunan a'ch teulu, a helpwch eraill.
- Symudwch y teulu, anifeiliaid anwes a phethau gwerthfawr i le diogel.
- Cadwch becyn llifogydd wrth law.
- Caewch gyflenwadau nwy, trydan a dŵr os yw'n ddiogel gwneud hyn.
- Rhowch offer gwarchod rhag llifogydd yn ei le.

RHYBUDD LLIFOGYD DIFRIFOL

Beth yw ystyr hyn

Llifogydd difrifol.
Perygl einioes.

Beth i'w wneud

- Arhoswch mewn lle diogel gyda modd dianc.
- Byddwch barod i adael eich cartref os oes rhaid.
- Cydweithredwch â'r gwasanaethau argyfwng.
- Galwch 999 os ydych mewn perygl.

Gallwch gael yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch llifogydd yn eich ardal chi trwy ymweld â'n gwefan neu drwy gofrestru i dderbyn ein gwasanaeth Rhybuddion Floodline Uniongyrchol AM DDIM. 0345 988 1188

Yn ystod llifogydd

Beth i'w wneud er mwyn aros yn ddiogel mewn llifogydd.

Os daw llifogydd, canolbwyntiwch ar eich diogelwch chi eich hunan a'ch teulu.

- Cydweithredwch gyda'r gwasanaethu brys os ydynt yn dweud wrthych am symud allan yn ystod llifogydd.
- Byddwch yn barod i weithredu'n gyflym a symud i rywle diogel.

Rydym yn defnyddio'n gwasanaethau rhybuddio am lifogydd er mwyn eich rhybuddio am lifogydd o afonydd a'r môr mor gyflym ag y gallwn. Ond mae rhai mathau o lifogydd na fedrwn mo'u rhagweld.

Cadwch yn effro am lifogydd lleoledig

Gelwir hyn yn 'lifogydd dŵr wyneb' yn ogystal. Ceir hyn, fel rheol, pan na all systemau draenio ymdopi â chyfnodau o law trwm. Ni allwn roi rhybudd uniongyrchol i chi ynghylch y math hwn o lifogydd. Yn lle hyn, rydym yn rhagfynegi ble gallai fod yn broblem mewn siroedd penodol a rhoi rhagolwg dyddiol o berygl llifogydd ar ein gwefan.

Gallwch hefyd ganfod mwy ynghylch y posibilrwydd o 'lifogydd dŵr wyneb' yn eich ardal trwy edrych ar ragolygon y tywydd lleol.

Beth i'w wneud mewn argyfwng

Dilynwch y camau syml hyn er mwyn aros yn ddiogel:

Gwrandewch ar gyngor y gwasanaethau brys

1. Cysylltwch â phobl eraill sy'n byw gyda chi – os nad ydynt adref sicrhewch eu bod yn rhywle diogel
2. Casglwch eitemau hanfodol at ei gilydd naill ai i fyny'r grisiau neu yn rhyw le uchel.
3. Llenwch jygiau a sosbenni â dŵr glân.
4. Symudwch eich teulu a'ch anifeiliaid anwes i fyny'r grisiau, neu i fan uchel gyda modd dianc oddi yno.
5. Caewch gyflenwadau nwy, trydan a dŵr pan fod llifddwr ar fin dod i mewn i'ch cartref os yw'n ddiogel i wneud hynny. PEIDIWCH â chyffwrdd â ffynonellau trydan os ydych yn sefyll mewn llifddwr.
6. Parhewch i wrando ar y radio lleol am y newyddion diweddaraf neu galwch Floodline ar 0345 988 1188.
7. Cysylltwch â chymdogion neu berthnasau bregus.
8. Gall llifddwr godi'n gyflym, peidiwch â chyffroi, a chysurwch bobl o'ch amgylch. Galwch 999 os ydych mewn perygl.

Pwysig! Mae llifddwr yn beryglus

- Gall chwe modfedd o ddŵr sy'n llifo'n gyflym daflu oedolyn oddi ar ei draed a gall dwy droedfedd o ddŵr symud car.
- Osgowch gerdded neu yrru drwyddo.
- Cadwch blant a phobl fregus i ffwrdd ohono.
- Golchwch eich dwylo'n drylwyr os ydych yn cyffwrdd ag ef.

Diogelwch beth allwch chi…

Symudwch eitemau pwysig i le diogel a rhoi offer gwarchod rhag llifogydd yn ei le pan ddaw rhybudd llifogydd. Dilynwch gyfarwyddiadau'r gwneuthurwr yn ofalus er mwyn helpu atal neu leihau'r llifddwr sy'n dod i mewn i'ch eiddo.

Ewch ag eitemau i fyny'r grisiau neu i le diogel yn eich eiddo

- Storiwch ddogfennau pwysig yn ddiogel fel dogfennau yswiriant.
- Symudwch eitemau o werth personol fel ffotograffau, ffilmiau o'r teulu neu gofroddion a drysorir.
- Symudwch feddiannau ysgafn yn y cartref y gallwch eu codi'n hawdd a chyflym.
- Symudwch eitemau o ddodrefn sy'n ddrud, neu'n anos eu trwsio, cyn rhai rhad.

Os oes modd, symudwch eich meddiannau sydd tu allan i dir uwch

- Os nad yw'r llifddwr wedi eich cyrraedd, symudwch eich car i dir uwch a symudwch anifeiliaid anwes sy'n byw tu allan i le diogel.

Helpwch i atal dŵr rhag dod i mewn i'ch cartref

- Rhowch blygiau mewn sinciau a baddonau. Pwyswch nhw i lawr gyda bag tywod, cês gobennydd neu fag plastig wedi'u llenwi â phridd o'r ardd, neu eitem drom.

Os nad ydych wedi ffitio falfiau unffordd

- Plygiwch bibellau mewnfa ddŵr gyda llieiniau neu gadachau.
- Datgysylltwch unrhyw offer sy'n defnyddio dŵr (fel peiriannau golchi dillad a llestri).

ond symudwch allan pan ddaw'r gorchymyn

Arhoswch yn ddiogel, gwrandewch bob amser ar gyngor y gwasanaethau brys a symudwch allan pan ddywedir wrthych am wneud hynny.

- Gadewch eich cartref, os dywedir y dylech gan y gwasanaethau brys. Bydd gwrthod gadael, yn groes i'w cyngor, yn eich rhoi chi, eich teulu a'r rheiny sy'n ceisio eich helpu mewn perygl.
- Pan gewch eich symud allan, fe'ch cludir i ganolfan ymgilio a redir gan eich cyngor lleol. Darperir bwyd a dillad gwely am ddim. Dewch â dillad sbâr, moddion hanfodol ac eitemau gofal babanod gyda chi os oes gennych faban.
- Bydd y rhan fwyaf o ganolfannau ymgilio yn caniatáu i chi ddod â'ch anifeiliaid anwes gyda chi. Ewch â'u bwyd gyda chi. Rhowch gathod ac anifeiliaid bach mewn cludwr anifeiliaid anwes neu flwch diogel.
- Mae'r bobl sy'n rhedeg y canolfannau wedi'u hyfforddi i roi cymorth a chyngor i chi. Byddant yn eich helpu drwy straen llifogydd, ac yn eich paratoi am beth i'w wneud wedyn.



Ar ôl llifogydd

Adfer ar ôl llifogydd.

Camau cyntaf

- Byddwch yn ofalus, oherwydd gall peryglon cudd fodoli yn y llifddwr, fel pethau miniog, caeadau tyllau archwilio sydd wedi codi a llygredd.
- Gall llifddwr fod wedi achosi difrod i adeiladwaith eich eiddo.
- Ym mhob achos, bron, bydd y cwmni yswiriant yn anfon cymhwysydd colledion i edrych ar eich eiddo. Byddant yn cadarnhau pa atgyweiriadau ac adnewyddiadau sy'n angenrheidiol ac a gynhwysir yn eich polisi.
- Os ydych yn rhentu eich eiddo, cysylltwch â'ch landlord a'ch cwmni yswiriant cynnwys mor gyflym ag y bo modd.
- Os nad oes gennych yswiriant, dylai eich cyngor lleol fedru darparu gwybodaeth ynghylch grantiau caledi neu elusennau y mae'n bosibl y gallant eich helpu.

Gall llifddwr gynnwys carthion, cemegolion a gwastraff anifeiliaid. Cofiwch, bob amser, wisgo:

- dillad allanol dwrglos, gan gynnwys menig.
- esgidiau glaw.
- mwgwd wyneb.

Os yw eich cyflenwad trydan heb ei ddiffodd eisoes yn y prif gyflenwad, trefnwch i rywun cymwys wneud hyn. PEIDIWCH â chyffwrdd â ffynonellau trydan pan fyddwch yn sefyll mewn llifddwr.

Gallwch wagio dŵr o'ch eiddo trwy ddefnyddio pwmp a generadur. Gosodwch y generadur allan yn yr awyr agored oherwydd mae pob generadur yn cynhyrchu tarthau monocsid carbon a allant eich lladd.

Ni ddylech bwmpio dŵr allan hyd nes y bo lefelau'r llifogydd tu allan i'ch eiddo yn is na'r dŵr y tu mewn. Mae hyn yn lleihau perygl difrodi'r adeiladwaith.

Mae nifer o bethau i'w hystyried wrth lanhau ar ôl llifogydd

Symudwch fwd i ffwrdd yn gyfartal o'r ddwy ochr i fur. Mae hyn yn atal pwysedd rhag cynyddu ar un ochr.

Gallwch lanhau a diheintio eich eiddo gan ddefnyddio cynhyrchion cyffredin ar gyfer y tŷ.

Mae pibell ddŵr garddio'n ddefnyddiol ar gyfer glanhau. Peidiwch â defnyddio pibellau dŵr pwysedd uchel oherwydd maent yn saethu deunydd wedi'i halogi i'r aer.

Os ydych yn sychu eich eiddo'n naturiol, cadwch ddrysau a ffenestri ar agor cymaint ag y bo modd. Os ydych yn defnyddio peiriannau dadleithio caewch ddrysau a ffenestri allanol.

Os oes gennych wres canolog nwy neu drydan a gafodd ei wirio gan beiriannydd, dylech ei gynnau. Cadwch y thermostat rhwng 20 a 22 gradd canradd er mwyn sychu'n raddol a chyson.

Fel rheol mae cynghorau lleol yn darparu sgipiau a chasgliadau ychwanegol o sbwriel ar gyfer eitemau y mae eich cwmni yswiriant wedi cytuno y gallwch eu taflu.

Delio â hawliad yswiriant

Os yw llifogydd wedi achosi difrod i rannau helaeth o'r wlad, hwyrach bydd yn rhaid i chi aros cyn daw cymhwysydd colledion i ymweld â chi.

Gofynnwch i'r cwmni yswiriant

- Faint o amser aiff heibio cyn daw'r cymhwysydd colledion i'ch gweld.
- A ydych i fod i lanhau eich eiddo, neu a fyddant yn trefnu i gwmni wneud hyn ar eich rhan.

Gwnewch eich cofnod eich hun o ddifrod llifogydd bob amser

- Defnyddiwch bin ysgrifennu inc parhaol i farcio'r uchder ar y wal ble cyrhaeddodd y llifddwr. Gwnewch hyn ym mhob ystafell a effeithiwyd gan lifddwr.
- Tynnwch ffotograffau neu gwnewch fideo o'ch eiddo a ddifrodwyd. Rhestrwch y difrod i'ch eiddo a'ch meddiannau.
- Os yw eich polisi yswiriant yn cynnwys colli nwyddau darfodus, gwnewch restr o'r holl fwydydd rydych yn eu taflu. Cynhwyswch unrhyw fwyd y cyffyrddwyd ag ef gan lifddwr ac unrhyw beth yn eich oergell neu rewgell a gafodd ei ddifetha gan golli trydan.

Pethau i helpu gyda'ch hawliad yswiriant

- Cadarnhewch bydd y cwmni yswiriant yn talu am unrhyw wasanaeth neu offer rydych ei angen.
- Gwnewch nodyn o bob galwad ffôn. Cofnodwch y dyddiad, yr enw a beth y cytunwyd arno.
- Cadwch gopïau o bob llythyr, e-bost a ffacs rydych yn eu hanfon a'u derbyn.
- Cadwch dalebau.
- Peidiwch â thaflu dim nes dywedir wrthych y gallwch (ar wahân i fwyd a ddifethwyd).

Nodyn pwysig: mae'n bosibl bydd y cwmni yswiriant yn cynnig glanhau a thrwsio rhywbeth yn unig, ac nid ei adnewyddu.

Os nad oes gennych yswiriant, dylai eich cyngor lleol fedru darparu gwybodaeth ynghylch grantiau caledi neu elusennau y mae'n bosibl y gallant eich helpu.

Tynnwch ffotograffau neu wneud fideo o'ch eiddo a ddifrodwyd

Camau pellach er mwyn gwarchod eich eiddo

Wrth i chi gynllunio i drwsio eich eiddo, hwyrach byddwch eisiau meddwl am ddulliau o'i warchod rhag llifogydd yn y dyfodol

Mae pethau y gallwch eu gwneud wrth drwsio eich eiddo a fyddant yn ei gwneud yn haws ac yn rhatach i lanhau ar ôl llifogydd yn y dyfodol.

Dyma rai gwelliannau gallwch eu rhoi ar waith

Trafodwch nhw gyda'ch cymhwysydd colledion a'ch adeiladwr.

- Gosodwch deils ceramig ar eich llawr gwaelod a defnyddio matiau yn lle carpedi gosod.
- Codwch uchder socedau trydanol i o leiaf 1.5 medr uwch ben lefel y llawr gwaelod.
- Defnyddiwch blastr calch yn lle gypswm ar waliau.
- Gosodwch geginau dur gloyw neu blastig yn lle rhai bwrdd sglodion neu prynwch unedau cegin sy'n sefyll ar eu pennau eu hunain, ac y gallwch eu symud.
- Gosodwch unrhyw brif rannau'r system gwresogi neu awyru, fel bwyler, i fyny'r grisiau neu wedi'i godi'n uchel uwch ben y llawr gwaelod.

Gosodwch fatiau yn lle carpedi gosod ar eich llawr gwaelod

- Gosodwch falfiau unffordd ar bob draen a phibell mewnfa ddŵr.
- Adnewyddwch fframiau ffenestri a drysau pren gyda rhai synthetig. Maent yn haws i'w glanhau.

Pwysig!

Defnyddiwch gontractwyr adeiladu ag enw da bob amser. Gwyliwch rhag twyllwyr masnach sy'n mynd o ddrws i ddrws. Gwiriwch bob geirda a pheidiwch â thalu o flaen llaw.



Llety dros dro

Gall trwsio ar ôl llifogydd gymryd wythnosau neu fisoedd i'w gwblhau, yn arbennig os cafwyd llifogydd dros ardal eang ac mae adeiladwyr yn brin. Mae'n cymryd amser i sychu eiddo a gall fod yn rhaid tynnu tu mewn rhai adeiladau ar led yn llwyr cyn gellir cychwyn eu trwsio.

Gofynnwch i'ch cwmni yswiriant neu landlord a fydd yn darparu llety dros dro ar eich cyfer. Gallai hyn fod yn westy gwely a brecwast gerllaw, carafán sefydlog neu dŷ ar rent. Nid oes rhaid i chi dderbyn y lle cyntaf a gynigir i chi.

Fodd bynnag, os yw llifogydd wedi effeithio ar lawer o bobl, gall y dewis o lety fod yn gyfyngedig.

Os byddwch mewn llety dros dro am beth amser, meddyliwch am drefnu i ailgyfeirio eich post.

Dylai eich cwmni yswiriant ddarparu llety dros dro ar eich cyfer

Am fwy o wybodaeth

Mae gan y sefydliadau hyn gyngor, gwybodaeth a gwasanaethau i'ch helpu chi ar ôl llifogydd.

Fforwm Llifogydd Cenedlaethol
www.floodforum.org.uk
01299 403055

Gwasanaeth yr ombwdsman ariannol
www.financial-ombudsman.org.uk
0300 123 9 123

Y Ganolfan Adeiladu
www.theconstructioncentre.co.uk
01926 865825

Y Gymdeithas Brydeinig er Rheoli Difrod (BDMA)
www.bdma.org.uk
01858 414278

Canolfan Gynghori
www.adviceguide.org.uk
08444 77 20 20

CIRIA
www.ciria.org/flooding
020 7549 3300

Iechyd Cyhoeddus Cymru
www.wales.nhs.uk
02920 227744

Cysylltu â ni

Gallwch gysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru ar e-bost, ffôn neu drwy'r post. Gallwch ein dilyn ar Facebook a Twitter a'n gweld ar YouTube a Flickr.

E-bost

Ymholiadau cyffredinol: ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Ffôn

Ymholiadau cyffredinol:
0300 065 3000 (Llun - Gwen, 8am - 6pm)

Gwasanaeth Minicom:
I bobl sy'n drwm eu clyw, mae gwasanaeth minicom ar gael drwy ffonio 03702 422 549**

Llinell argyfwng:
0800 807060 (gwasanaeth 24 awr)
Dylech ddefnyddio'r llinell argyfwng i roi gwybod am ddigwyddiad fel llygredd. Mae rhif ein Llinell Argyfwng 0800 yn rhad ac am ddim o linell dir ond mae'n debygol y bydd taliadau yn daladwy o ffôn symudol.

Floodline (gwasanaeth 24 awr):
0345 988 1188

Floodline Type Talk
Y rhif Type Talk yw:- 0345 602 6340 (i gwsmeriaid trwm eu clyw)

Ffacs

0300 065 3001

Post

Cyfoeth Naturiol CymruTŷ Cambria, 29 Heol Casnewydd, Caerdydd, CF24 0TP

Cyfryngau Cymdeithasu

Ymunwch â ni ar y cyfryngau cymdeithasu i gadw mewn cysylltiad.

Costau Galwadau

Nid yw galwadau i rifau 03 yn costio dim mwy na galwad cyfradd genedlaethol i rif 01 neu 02 a byddant yn cyfrif tuag at unrhyw funudau cynwysedig yn yr un ffordd â galwadau 01 a 02. Mae'r rheolau hyn yn berthnasol i alwadau ar unrhyw fath o linell gan gynnwys symudol, BT, llinell sefydlog arall neu ffôn talu.

Gellir cysylltu â Floodline hefyd drwy ddeialu 0845 988 1188. Dylaech gysylltu â'ch darparwr gwasanaeth ffôn i sicrhau beth yw cost galwadau 0845 ac 0345. Mae'r gost o alw'r rhifau 0345 neu 0845 yn dibynnu ar eich darparwr ffôn ac os ydych yn defnyddio llinell tir neu ffôn symudol.

Mae coetiroedd y Comisiwn Coedwigaeth Cymru wedi cael eu hardystio yn unol â rheolau Forest Stewardship Council ®

Forestry Commission woodlands have been certified in accordance with the rules of the Forest Stewardship Council ®

Erferovitatem litaturibus doloremod et, ute asit, consedi dolestrum et evel et estrum, nos dolentium fugit, sum hil ipissiment eum nem sitaspiento quam, quatistrum re velitas volo invereptae.

FLHO1110BTFL-B-E